

Mae'r term cyffredin 'lleuen' wedi cael ei roi i nifer o barasitiaid pysgod gwahanol. Mae'r rhain yn cynnwys rhywogaethau o *Argulus*, sydd yn bennaf yn barasitiaid dŵr croyw, a llau'r môr sy'n byw ac yn atgennedlu yn y môr. Gellir gweld y ddwy ohonynt yn glynu wrth eogiaid a sewiniaid sydd wedi dychwelyd i'n hafonydd ni i silio. Ar yr olwg gyntaf, gall *Argulus* a llau'r môr ymddangos yn debyg, ond mae nifer o wahaniaethau sy'n gallu eich helpu i wahaniaethu rhyngddynt.



Mae llau dŵr croyw *Argulus* (ar y chwith) a llau'r môr (ar y dde) yn barasitiaid cyffredin a geir ar eogiaid gwyllt a sewiniaid, ac mae eu hadnabod nhw'n hawdd.

Llau pysgod dŵr croyw, *Argulus* rhywogaethau

Mae tair rhywogaeth o *Argulus* sydd wedi cael eu cofnodi yn y DU. Y fwyaf cyffredin yw *Argulus foliaceus*, a geir yn bennaf mewn dŵr llonydd. Mae'n well gan *Argulus coregoni* amgylchiadau lle mae dŵr yn llifo'n gyflymach, a hi yw mwyaf y tair, hyd at 10mm ar ei lled. Hon yw'r rhywogaeth a geir yn amlaf ar eogiaid a sewiniaid, yn ogystal ag ar frithyllod a physgod cwrs, mewn afonydd. Mae'r drydedd rhywogaeth, *Argulus japonicus*, yn rhywogaeth sydd wedi cael ei chyflwyno, a hi yw'r lleiaf cyffredin. Mae'n bosibl gweld *Argulus* unrhyw le ar groen allanol pysgodyn, ond mewn afonydd maent yn aml yn ceisio cysgodi y tu ôl i'r esgyll, weithiau mewn clystyrau tynn.



Llau'r môr

Mae dwy rhywogaeth gyffredin o lai'r môr, *Lepeophtheirus salmonis* a *Caligus elongatus*. Er bod y ddwy ohonynt yn barasitiaid morol, fe'u gwelir yn aml ar eogiaid a sewiniaid sy'n dod i ddŵr croyw. Ni all llau'r môr atgennedlu mewn dŵr croyw, ond gallant oroesi amgylchiadau afon am rhwng dwy a thair wythnos. Felly, mae presenoldeb llau'r môr ar eogiaid a sewiniaid yn arwydd clir mai dim ond yn ddiweddar y mae'r pysgodyn wedi dod i mewn i ddŵr croyw. Fel arfer, gwelir llau'r môr yn glynu wrth y croen o gwmpas y pen, yr asgell ddorsal, ac asgell yr anws.



Gwahaniaethu rhwng llau



Fel arfer, mae *Argulus* (ar y chwith) fel jeli, yn lled dryloyw, a chanddynt bâr o smotiau llygad du. Yn aml, mae lliw llau'r môr (ar y dde) yn fwy tywyll, a chanddynt segmentau ychwanegol – ac yn aml llinynnau hir o wyau yn llusgo ar eu holau.

Mae nifer o nodweddion sy'n gallu helpu i wahaniaethu rhwng *Argulus* a llau'r môr. Yn gyntaf, mae corff *Argulus* yn siâp disc, ac iddo olwg fel jeli, lliw gwyrdd-frown – ac yn aml mae'n lled dryloyw. Mewn cyferbyniad, fel arfer mae llau'r môr yn fwy tywyll, a chanddynt darnau corff ychwanegol sy'n rhoi golwg wedi'i segmentu iddynt.

Yn ail, mae gan *Argulus* bâr amlwg o smotiau llygad du. Nid oes gan llau'r môr y rhain, felly, os ydych yn dod ar draws parasit a chanddo ddau lygad du, o'r rhywogaeth *Argulus* y mae. Yn olaf, mae llau'r môr yn cadw eu hwyau mewn llinynnau hir sy'n llusgo y tu ôl i'w cyrff ar adegau penodol o'r flwyddyn. Gall y cynffonau hyn fod hyd at deirgwaith hyd y parasit. Mae *Argulus* yn dodwy eu hwyau ar greigiau neu chwyn, felly nid oes ganddynt y llinynnau hyn o wyau'n llusgo ar eu holau.

A yw llau pysgod yn niweidiol?

Mewn amgylcheddau naturiol, fel arfer mae llau pysgod yn bodoli mewn niferoedd isel, ac yn achosi ychydig iawn o ddifrod i'w corff lletyol. Fodd bynnag, mae *Argulus* a llau'r môr yn gallu achosi difrod difrifol os yw eu niferoedd yn amlhau. Gall *Argulus* fod yn enwedig o niweidiol i bysgodfeydd brithyllod dŵr llonydd, ac yn gofyn am fesurau rheoli penodol er mwyn cyfyngu heintiau (gweler ein taflen ffeithiau ar *Argulus* mewn pysgodfeydd brithyllod). Gall brithyllod ifanc a gleisiaid eog hefyd fod yn agored i heintiau *Argulus*, yn enwedig yn ystod cyfnodau o dywydd poeth a llifoedd afon isel. Mae llau'r môr yn broblem fawr mewn dyframaeth eogiaid, gydag effeithiau dilynol posibl ar eogiaid gwyllt a sewiniaid.

Gall llau'r môr ac *Argulus* achosi difrod trwy'r ffordd y maent yn glynu ac yn bwydo. Maent yn bwydo ar feinwe croen, mwcws a gwaed. Yn achos heintiau ysgafn, gall y croen atgynhyrchu'n gyflym, ond pan fydd yr haint yn ddifrifol mae'r croen yn cael ei ddifrodi, ac mae'n erydu ac yn datblygu doluriau. Mae llau'r môr ac *Argulus* hefyd yn gallu bod yn anghyfforddus iawn, nes bod pysgod sydd wedi cael eu heffeithio'n neidio ar y creigiau neu'n rhwbio eu hunain yn eu herbyn dro ar ôl tro. Mae croen sydd wedi cael ei ddifrodi yn gallu cael heintiau bacteria a ffwngau eilaidd, a gall pysgod sydd wedi cael eu heffeithio'n wael farw – er bod heintiau o'r fath yn anghyffredin yn y gwyllt.

Os ydych yn cael marwolaethau pysgod, neu os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â heintiau neu glefydau pysgod, cysylltwch â: **Cyfoeth Naturiol Cymru**

E-bost – fisheries.wales@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Canolfan Gofal Cwsmeriaid, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP

Ffôn – 03000 65 3000 (24 awr y dydd)